



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Eder  
Heol Llanedern  
Penylan  
Caerdydd  
CF23 9DT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern ar gyfer disgyblion 11-19. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2012 gyda disgyblion Blwyddyn 7 yn unig. Mae wedi ei lleoli yn nwyrain Caerdydd.

Mae 614 o ddisgyblion ar y gofrestr, 47 yn y chweched dosbarth (Blwyddyn 12 yn unig).

Mae tua 10.2% o'r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigur cenedlaethol, sef 17%. Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 1% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r ffigur cenedlaethol.

Daw 18% o'r disgyblion o gartrefi lle Cymraeg yw iaith yr aelwyd. Mae ychydig o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae 31% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae uwch dîm arwain yr ysgol yn cynnwys y pennaeth, y dirprwy bennaeth a thri dirprwy cynorthwyol. Penodwyd y pennaeth yn 2012.

Mae'r ysgol yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a datblygiadau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gyfer iechyd a lles.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

O dan arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth a chefnogaeth egniol yr uwch dîm arwain a'r llywodraethwyr, sefydlwyd o'r newydd, ysgol gyfun Gymraeg llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gymuned glòs iawn gydag ethos hynod ofalgar a chefnogol. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn dangos lefelau uchel iawn o barch a gofal at ei gilydd ac eraill. Mae llawer yn dangos aeddfedrwydd cynyddol, gan ddod yn ddysgwyr hynod o hyderus. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol ac i fwynhau dysgu yn gryfderau amlwg. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r uwch dîm arwain a'r staff yn llwyddo i greu diwylliant ac ethos o'r "ysgol sy'n dysgu" sydd yn annog a chefnogi datblygiad proffesiynol staff yn dda iawn ar bob lefel. Mae defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan athrawon a'r disgyblion yn gryfder ac yn nodwedd arwyddocaol o waith yr ysgol. Mae bron pob athro'n defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n bwrpasol ac yn effeithiol i ymestyn a datblygu dealltwriaeth y disgyblion.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Da</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Da</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Da</b>

## **Argymhellion**

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Datblygu rôl y corff llywodraethol a rhanddeiliaid eraill i weithredu fel cyfeillion beirniadol.

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r defnydd a wneir gan athrawon a disgyblion o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi dysgu ac addysgu i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae bron pob disgybl yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol yn y gwersi ac yn ennill gwybodaeth bynciol newydd. Mewn ychydig o wersi, maent yn gwneud cynnydd eithriadol. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau yn y gwersi ac ar y meysydd chwarae. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol a'r graddau maent yn mwynhau dysgu yn gryfderau amlwg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu medrau darllen gwerthfawr ac yn eu defnyddio'n effeithiol i adnabod ac i ddeall amrywiaeth o destunau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau siarad gwerthfawr ac yn eu defnyddio'n hyderus wrth drafod eu gwaith mewn parau a grwpiau, i ateb cwestiynau o flaen y dosbarth ac i ddadlau o blaid ac yn erbyn testunau, er enghraifft i ddadlau am fodd Tryweryn. Mae bron pob un yn gwrandao'n dda iawn ar yr athro ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus iawn. Maent yn barchus iawn wrth wrando ar gyfoedion a'r athrawon yn siarad.

Mae llawer yn ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Mae ychydig yn gwneud hyn yn dda iawn. Er enghraifft, mae disgyblion uwch eu gallu'n ysgrifennu trwy gystawenu'n gywir ac yn defnyddio iaith naturiol, idiomatig yn fedrus. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu darnu estynedig o safon uchel iawn ac yn dadansoddi barddoniaeth mewn ffordd aeddfed a sensitif.

Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn ysgrifennu dadansoddiadau dwys o gymeriadau Macbeth. Mae disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu darnau estynedig cryf sy'n dadansoddi a defnyddio ffeithiau'n effeithiol. Mae llawer yn dangos dealltwriaeth briodol a defnydd o derminoleg ac arddulliau gwahanol, Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus ac yn drefnus yn eu llyfrau.

Mae llawer yn datblygu medrau rhif cadarn yn hyderus wrth ddefnyddio'r pedair rheol rhif i adio, tynnu rhannu a lluosu rhifau yn y pen ac ar y cyfrifiannell. Mae llawer yn defnyddio ffracsiynau a degolion yn gywir i ddatrys problemau pob dydd. Mae llawer yn casglu a threfnu data'n effeithiol ac yn eu defnyddio i lunio graffiau addas, er enghraifft i fesur canrannau, tymheredd, glawiad, buanedd y gwynt ac uchder tonnau yn y gwersi daearyddiaeth.

Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol iawn ar draws pob pwnc ac yn datblygu medrau eithriadol mewn llawer o agweddau. Maent yn defnyddio llechi cyfrifiadurol yn effeithiol iawn yn eu gwersi i ganfod gwybodaeth newydd, i rannu eu gwaith gyda'r dosbarth, i asesu eu cynnydd eu hunain ac i olrhain eu cynnydd. Er enghraifft, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r codau QR i lawrlwytho fideo ar ffitrwydd ar ddechrau'r wers ymarfer corff, ac mae bron pob disgybl yn defnyddio ap garage band yn hyderus i greu traciau sain i gyd-fynd â'u perfformiad Samba yn y gwersi cerddoriaeth. Mae llawer yn datblygu eu medrau creadigol wrth greu animeiddiadau deniadol i gyflwyno gwybodaeth.

Ar hyn o bryd, un flwyddyn o ganlyniadau sydd gan yr ysgol. Serch hynny, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Cymraeg a mathemateg yn ychydig is na'r disgwyl, ac yn is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill. Mae perfformiad yr ysgol yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn debyg i berfformiad ysgolion tebyg eraill.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n llwyddo i ennill 5 TGAU A\*-A neu gyfwerth yn is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill. Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n llwyddo ym Magloriaeth Cymru yn is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill.

Mae perfformiad bechgyn a merched yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Cymraeg a mathemateg yn ychydig is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn is na'r hyn mewn ysgolion eraill tebyg mewn bron pob un o'r dangosyddion pwysig.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 heb gymhwyster.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safonau lles y disgyblion yn uchel iawn. Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at fywyd ysgol ac yn gwerthfawrogi'n fawr bod yn rhan o gymuned Gymraeg glòs a gofalggar. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig iawn i'r gweithgareddau dysgu gan arddangos medrau dysgu annibynnol cryf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn ymateb i'w pryderon a'r achosion prin iawn o fwlio yn amserol ac yn synhwyrol.

Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel iawn o barch tuag at ddisgyblion eraill a staff. Maent yn hynod goresawgar gydag ymwelwyr ac yn rhyngweithio'n aeddfed ag oedolion.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym.

Mewn trafodaethau dosbarth, mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n werthfawr ac yn gwerthfawrogi safbwyntiau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda iawn mewn grwpiau a pharau. Maent yn ymroi i dasgau'n frwdfrydig ac yn parhau'n benderfynol wrth geisio goresgyn anawsterau. Mae llawer yn dangos aeddfedrwydd cynyddol, gan ddod yn ddysgwyr hynod o hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn nodwedd arbennig o ddisgyblion yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy ddeiet iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae cyfraddau uchel iawn yn cymryd rhan yn fuddiol mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys arlwy amrywiol o chwaraeon a phrofiadau celfyddydol gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau a gweithdai barddoniaeth ac ysgrifennu creadigol gyda llenorion o fri.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Maent yn cyfrannu'n dda at fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r cyngor ysgol a fforymau blwyddyn. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi cynnal trafodaeth gyda'r adran ymarfer corff i wella darpariaeth a mynediad at ffitrwydd. O ganlyniad, trefnwyd sesiynau ffitrwydd bore i ddisgyblion ac addasu'r wisg i ferched er mwyn iddynt deimlo'n gyfforddus mewn gwersi ymarfer corff. Nodwedd eithriadol yw cyfraniadau arbennig yr arweinwyr digidol sydd yn mentora ac yn arwain hyfforddiant i staff a disgyblion ar sut i ddefnyddio TGCh yn effeithiol yn y gwersi. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 12 yn mentora disgyblion iau ac yn chwarae rôl gynyddol bwysig gyda gofal bugeiliol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn fel dinasyddion moesegol a goddefgar. Mae llawer o ddisgyblion yn weithgar wrth drefnu gweithgareddau elusennol a dyngarol, er enghraifft trwy drefnu a chyflwyno gwasanaeth i goffáu trychineb Aberfan ac i godi arian i bobl ddigartref a dioddefwyr y rhyfel yn Syria.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda.

Mae gan bron pob athro wybodaeth bynciol dda iawn, ac maent yn creu perthnasoedd dysgu effeithiol iawn yn eu dosbarthiadau. Mae gan bron pob athro ddisgwyliadau uchel iawn o ymddygiad, cyfranogiad a chynnydd disgyblion. Mae bron pob athro'n sefydlu awyrgylch gynhwysol, gartrefol a gweithgar yn eu dosbarthiadau. Mae defnydd effeithiol iawn o TGCh gan bron pob athro yn cyfrannu'n helaeth at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae bron pob athro'n cynllunio'u gwersi'n ofalus gydag amcanion a nodau clir. Maent yn paratoi tasgau effeithiol ac amrywiol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a chyfranogiad disgyblion. Mae bron pob athro'n cynnig cyfarwyddiadau clir ac yn esbonio'r tasgau'n effeithiol. Mewn ychydig o wersi, mae'r tasgau'n heriol iawn, ac mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dasgau pwrpasol i ymestyn diddordeb a gwybodaeth pob grŵp o ddisgyblion. Mewn bron pob gwersi, mae gweithdrefnau pob dydd wedi'u sefydlu'n dda iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn cychwyn gweithio'n gyflym heb unrhyw ffwdan ac yn gwneud cynnydd gwerthfawr.

Mae defnydd o gyfarpar TGCh gan athrawon a'r disgyblion yn gryfder ac yn nodwedd arwyddocaol o waith yr ysgol. Mae bron pob athro'n defnyddio TGCh yn bwrpasol ac yn effeithiol iawn i ymestyn a datblygu dealltwriaeth y disgyblion. Er enghraifft, mewn nifer o wersi, mae disgyblion yn cynnig eu syniadau ar eu llechi cyfrifiadurol sydd hefyd yn ymddangos ar y bwrdd gwyn. O ganlyniad, mae pawb yn y dosbarth yn medru trafod y syniadau gyda'i gilydd. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol wrth ddefnyddio'r llechen cyfrifiadurol i ddarganfod gwybodaeth ychwanegol, i asesu eu cynnydd ac i gwblhau gwaith adolygu neu estynedig. Mewn llawer o wersi, mae defnydd effeithiol iawn o TGCh i alluogi disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Ym mron pob gwera, mae athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ac adeiladol sy'n helpu'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn eu gwneud a sut i wella. Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig adeiladol ar waith disgyblion ac yn esbonio'n glir yr hyn sydd angen ei wneud i wella.

Llwydda'r ysgol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n llwyr ddiwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos i baratoi adnoddau defnyddiol ar gyfer cyrsiau TGAU newydd ac i ddarparu cyrsiau llwyddiannus a dewis eang o brofiadau i ddisgyblion Blwyddyn 12. Yn ogystal, mae cysylltiadau cryf gan yr ysgol â'i hysgolion partner cynradd sy'n cynnwys cydweithio ar agweddau ar y ddarpariaeth a threfnu cydweithio rhwng disgyblion yr uwchradd a'r cynradd.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr i ddisgyblion a rhieni wrth iddynt ystyried opsiynau diwedd cyfnod allweddol, er enghraifft diwrnodau blasu partneriaeth, cyflwyniad i rieni a gwneud defnydd o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 i rannu gwybodaeth a phrofiadau gyda disgyblion Blwyddyn 9.

Mae'r ysgol yn gwneud addasiadau effeithiol a phwrpasol i'r cwricwlwm wrth i'r ysgol dyfu. Mae cynllunio strategol medrus i'w weld o ran y gwera a ddarperir i grwpiau o ddisgyblion. Er enghraifft, mae gwera ychwanegol yn y pynciau craidd yn cael eu gosod ar amserlen rhai disgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11. Yn ogystal, mae'r ysgol yn effeithiol iawn wrth ddiwallu anghenion disgyblion unigol trwy ddarparu cyfleoedd priodol iddynt, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, profiad gwaith a phrofiadau gyda phrifysgol leol.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol iawn ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn cael profiadau buddiol yn cynnwys cynhyrchu cylchgrawn yr ysgol, 'Yr Elain'. Mae adrannau'r ysgol yn cynllunio'n dda iawn er mwyn darparu cyfleoedd i ymestyn y disgyblion hyn; er enghraifft, disgyblion sy'n rhedeg clwb gwyddoniaeth yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn trefnu ystod o ymyrraethau priodol yn ôl anghenion disgyblion sy'n effeithiol wrth godi safonau llawer o ddisgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn llwyr ymwybodol o anghenion a thargedau disgyblion unigol ac yn cynllunio'r ddarpariaeth yn grefftus yn ôl y wybodaeth hon.

Ceir cyfleoedd helaeth ac arbennig i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm. Er enghraifft, yn ystod teithiau ysgol i'r Almaen a Ffrainc, mae disgyblion yn ysgrifennu blog tairieithog am eu profiadau. Mae disgyblion yn ymweld ag ysgolion cynradd cyfagos i ddarparu profiadau gwerthfawr iawn i ddisgyblion iau, gan gynnwys sesiynau chwaraeon a mathemateg.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n fanwl er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwych ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol, er enghraifft, 'Gwera Clwb Dydd Gwener', clwb Cymreictod, hyrwyddo gweithgareddau'r Urdd, cynnal Eisteddfod ysgol boblogaidd a chynhyrchu sioe gerdd.



Mae gan yr ysgol systemau a chynlluniau effeithiol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion. Mae'r ysgol yn ysgol arloesi o ran y fframwaith cymhwysedd digidol ac mae'r datblygiadau yn y maes hwn yn sicriawn er budd disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio'n fanwl iawn i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio ac i ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym mhob pwnc. Mae cyfleoedd arbennig i ddisgyblion ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi ac ymestyn eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio'r dechnoleg i ymchwilio ymhellach, cefnogi datblygiad eu medrau iaith a chyflwyno gwybodaeth a thasgau mewn amryw ffyrdd at safon uchel iawn. Mae gan adrannau strategaethau effeithiol er mwyn cefnogi'r disgyblion i wella eu medrau, er enghraifft y strategaeth 'ymateb i darged'.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glòs sydd yn cynnig cymorth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae'r ysgol wedi creu ethos hynod ofalgar a chefnogol sydd yn hyrwyddo lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac eraill.

Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Hafan yn cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac wedi cael effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb a phrofiadau dysgu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr, gan gynnwys addasu'r cwricwlwm i fodloni anghenion disgyblion unigol.

Mae systemau olrhain cynnydd effeithiol gan yr ysgol. Gwneir defnydd pwrpasol o'r wybodaeth hon i adnabod a thargedu disgyblion sydd angen cefnogaeth ac i ddarparu ymyrraeth ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddogfennau defnyddiol sydd yn cynnwys strategaethau addas i fodloni eu hanghenion. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o anffodlonrwydd rhwng disgyblion gan ddefnyddio dulliau adferol yn llwyddiannus i annog egwyddorion o degwch a chyfiawnder.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni. Mae'n darparu adroddiadau interim a diwedd blwyddyn cynhwysfawr iddynt am gynnydd eu plant a sut y gallant wneud rhagor o gynnydd.

Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y byd gwaith neu'r cam nesaf yn eu dysgu trwy eu cynghori a'u mentora'n fuddiol. Mae cyfraddau uchel o ddisgyblion yn datblygu eu medrau personol wrth gymryd rhan yn yr holl gyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, er enghraifft perfformiadau celfyddydol, digwyddiadau diwylliannol ac ystod eang o chwaraeon. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynyddu eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o sut i fyw'n iach. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr yn cyfrannu'n werthfawr iawn at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Drwy weithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol, mae'r ysgol yn darparu profiadau buddiol i'r disgyblion, er enghraifft trwy ddiwrnodau ffocws dadlenol ar hawliau'r anabl a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae system myfyrdod annibynnol personol a chynllun 'Pwyntiau Edern' yn effeithiol iawn wrth wobrwyo presenoldeb, ymdrech a llwyddiant disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac mae'n arweinydd diymhongar, doeth a synhwyrol. Gyda chymorth egnïol y dirprwy a brwdfrydedd gweddill yr uwch dîm arwain, mae'n cyfathrebu ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn ddiamwys i'r holl randdeiliaid. Mae'r weledigaeth uchelgeisiol hon wedi ei seilio'n gadarn ar ddarparu'r addysg orau bosibl i bob disgybl mewn cymuned ysgol agored a chynhwysol Gymraeg er mwyn eu datblygu'n aelod llawn a gwâr o gymdeithas.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn modelu eu disgwyliadau uchel yn eu gwaith bob dydd. Maent yn hybu ymddygiad proffesiynol o'r radd uchaf trwy osod disgwyliadau uchel ar yr holl staff a'r disgyblion. Rhoddir ffocws ddiildio ar weithredu effeithiol yn y dosbarth. Mae holl staff yr ysgol yn arddel y gwerthoedd hyn ac yn coleddu'r weledigaeth. Mae ansawdd uchel yr arweinyddiaeth ar bob lefel yn nodweddiadol.

Mae nodau ac amcanion strategol yr ysgol yn glir ac yn uchelgeisiol. Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain wedi eu dosrannu'n synhwyrol ac mae atebolrwydd i staff ar bob lefel wedi ei ddiffinio'n glir. Rhoddir blaenoriaeth arwyddocaol i ddatblygiad proffesiynol yr holl staff, unai fel unigolion neu ar lefel ysgol gyfan ac mae trefniadau cadarn iawn i'w cefnogi. Mae arweinwyr yn arddel diwylliant o ysgol sy'n dysgu ac yn cynnig anogaeth eithriadol i staff i rannu syniadau a dulliau newydd. Trwy gyfleoedd gwerthfawr i staff arwain a datblygu mewn meysydd penodol, mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd buddiol i unigolion ddatblygu medrau arweinyddiaeth gwerthfawr.

Mae gan yr ysgol gynlluniau a pholisïau priodol ac mae trefn a strwythur rheolaeth llinell yn glir i bawb. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn drylwyr iawn ac mae'r targedau a osodir iddynt yn fesuradwy ac yn gysylltiedig yn uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol o godi safonau disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae prosesau hunanarfarnu ar lefel ysgol ac adrannol yn drylwyr, gonest, ac yn eang eu cwmpawd. Mae eu barnau'n yn bwyllog ac yn gytbwys. Nodweddiadol arbennig yw cysondeb safon yr arfarniadau adrannol.

Wrth hunanarfarnu, mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata perfformiad ar lefel ysgol gyfan ac ym mhob adran. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o amrediad eang o dystiolaeth werthfawr uniongyrchol. Mae rhaglen monitro adrannau yr ysgol yn nodweddiadol arbennig sy'n cefnogi'n rymus brosesau hunanarfarnu'r ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol wrth adolygu perfformiad adrannol a monitro cynnydd dilynol.

Mae ansawdd cynllunio ar gyfer gwelliant ar lefel ysgol ac adran o safon uchel. Mae cyswllt cryf rhwng dadansoddiadau'r adroddiadau hunanarfarnu a'r meysydd gwelliant. Mae blaenoriaethau cenedlaethol ac ysgol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau ar bob lefel yn fwriadus. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithgareddau pwrpasol i sicrhau gwelliannau. Maent wedi'u costio'n addas gydag amserlen a llinellau atebolrwydd clir. Mae adrannau'n gosod deilliannau miniog i ymgyrredd atynt gan wybod bydd y drefn monitro cynnydd adrannau yn eu dwyn i gyfrif.

Mae ethos yr ysgol yn hybu cynnwys barn rhieni, disgyblion a llywodraethwyr wrth arfarnu a chynllunio ei gwaith. Cryfder amlwg yw'r modd y mae'r ysgol yn arfarnu ei strwythurau a'i darpariaeth ei hun yn barhaus. Pan fo angen, mae hi'n hyderus i fireinio agweddau pwysig. Er enghraifft, cyflwynwyd newidiadau i'r cwricwlwm wrth i'r ysgol dyfu ac mae trefniadau ar gyfer cyfnodau adolygu yng nghyfnod allweddol 4 wedi'u tynhau.

Mae'r ysgol yn llwyddo i greu diwylliant ac ethos o'r "ysgol sy'n dysgu" sydd yn annog a chefnogi datblygiad proffesiynol staff ar bob lefel. Trwy'r amrywiaeth o gyfleoedd o ansawdd uchel, megis gweithgorau gwella dysgu, a sesiynau ffurfiol ac anffurfiol o hyfforddiant mewn swydd, mae athrawon yn cael cyfleoedd i amsugno arferion da. Yn ogystal, mae cydweithio ag ysgolion cyfagos a'r consortiwm wedi rhoi profiad o ehangu gorwelion athrawon. Mae'r drefn gadarn o reoli perfformiad yn adlewyrchu hyn. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â thanberfformio mewn ysbryd gofalgar a chefnogol iawn. Nodwedd arbennig yw'r modd y mae'r ysgol yn manteisio ar arbenigedd disgyblion yn y maes digidol i roi cymorth ymarferol i athrawon.

Mae cydweithio cadarnhaol iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'i hysgolion cynradd partner. Hefyd, mae cydweithio proffidiol gydag ysgolion uwchradd Caerdydd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â phrifysgol gyfagos i ddarparu ar gyfer disgyblion mwy abl a lleoliadau ar gyfer myfyrwyr.

Mae'r corff llywodraethol yn grŵp angerddol sydd yn gwarchod buddiannau'r ysgol yn dda iawn. Mae tystiolaeth gref o gefnogaeth i'r ysgol ers ei sefydlu. Mae'r corff wedi gweithredu'n gadarn iawn wrth sicrhau bod adnoddau a chyllid angenrheidiol yn cael eu darparu wrth i'r ysgol dyfu ac esblygu. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac mae ganddynt wybodaeth sicr am ddata perfformiad ac o gryfderau a meysydd i'w gwella yr ysgol. Serch hynny, nid ydynt hyd at hyn wedi defnyddio'r wybodaeth hon i herio'r ysgol yn ddigonol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o brofiad ac arbenigeddau aelodau o'r corff llywodraethol i arwain a datblygu meysydd penodol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithlon o'i staff a'i hadnoddau ffisegol a rheolir cyllid yr ysgol yn ofalus iawn. Mae'r pennaeth a'r rheolwraig busnes yn cynllunio gwariant tymor byr a hirdymor yn synhwyrol a gwneir penderfyniadau doeth wrth ddatblygu'r adeiladau a'r adnoddau wrth i nifer y disgyblion gynyddu. Gwneir defnydd pwrpasol o grantiau i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft y grant datblygu disgyblion. Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gref iawn o arbenigeddau staff a rhoddir cyfleoedd gwerthfawr iawn i staff a disgyblion wneud cyfraniad arbennig i waith yr ysgol.

## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn  
([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2018